



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth Diwygiedig

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2012



Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth Diwygiedig

Cynulleidfa	Pob corff sydd ynghlwm wrth hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC); sefydliadau addysg uwch; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC); Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon, Cymru (UCET Cymru); Estyn; Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC); awdurdodau lleol yng Nghymru; undebau addysgu; ysgolion a gynhelir; Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru; partiön eraill â diddordeb a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn.
Trosolwg	Rhydd y ddogfen hon grynoded o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd ag adborth ar gynigion i gyflwyno Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth Diwygiedig yng Nghymru. Byddai'r cynllun hwn yn cymryd lle Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2011 (2011 Rhif: 32) a fyddai'n cyflwyno darpariaethau yn caniatáu rhaglen hyfforddi ychwanegol fel mesur gwella ysgolion.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn gan: Gail Deane Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 6530 e-bost: teachingenquiries@cymru.gsi.gov.uk
Copiau ychwanegol	Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Cynnwys

1.	Cyflwyniad a throsolwg	1
2.	Y broses ymgynghori	2
3.	Ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori a'n hadborth	3
4.	Sylwadau cyffredinol nad ydyn nhw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cwestiynau penodol a ofynnwyd	21
5.	Y ffordd ymlaen	23
	Atodiad A: Rhestr lawn o ymatebwyr	24
	Atodiad B: Ymatebion a gyhoeddwyd	25

1. Cyflwyniad a throsolwg

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion i gyflwyno cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth diwygiedig. Byddai'n cymryd lle Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2011 (2011 Rhif 32) ("Cynllun 2011") ac yn cyflwyno darpariaethau'n caniatáu rhedeg Rhaglen Hyfforddi Ychwanegol i Raddedigion ("y RhHYR") lle y bo angen.

1.2 Ar hyn o bryd, mae Cynllun 2011 yn gwneud darpariaeth statudol ar gyfer llwybrau cyflogaeth i bobl ddod yn athrawon cymwysedig a chael Statws Athro Cymwysedig ("SAC") i'w galluogi i addysgu mewn ysgolion a gynhelir. Noda ofynion rhaglenni hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth penodol ("HASC") – y Rhaglen Athrawon Graddedig ("RhAG") a'r Rhaglen Athrawon Cofrestredig ("RhAC") – a sut y byddent yn gweithredu yng Nghymru.

1.3 Nid yw'r ffaith bod rhaglen wedi'i chynnwys mewn Cynllun HASC o reidrwydd yn golygu y byddai'n gweithredu drwy'r amser. Nid yw'r RhAC yn gweithredu ar hyn o bryd, er enghraifft. Mae Cynllun HASC statudol yn adnodd galluogi sy'n nodi manylion rhaglenni penodol, a all gael eu gweithredu fel y bo angen wedyn.

1.4 Rydym hefyd wedi achub ar y cyfle i wneud rhai diwygiadau amrywiol i'r Cynllun er mwyn egluro faint o amser sydd ei angen mewn ail leoliad neu leoliad ysgol arall o dan y RhAG a chywiro rhai mân wallau teipograffyddol.

1.5 Gwnaethom hefyd geisio barn ar yr amserlen ar gyfer llunio Cynllun diwygiedig. Dim ond effeithio ar bobl sy'n dechrau cael hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth ar neu ar ôl 1 Medi 2012 y byddai'r newidiadau. Mae'r unigolion hynny sy'n dechrau rhaglenni hyfforddi cyn y dyddiad hwn yn destun y gofynion a nodir yng Nghynllun 2011.

2. Y broses ymgynghori

2.1 Ceisiwyd barn grwpiau o randdeiliaid i lywio'r newidiadau polisi arfaethedig. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r holl ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghyd â'n hymateb. Roedd rhai o'r ymatebion yn cynnwys sylwadau cyffredinol nad oeddent yn ymwneud â'r cwestiynau a ofynnwyd yn uniongyrchol ac ymdrinnir â'r rhain yn fanylach yn adran 4.

2.2 Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr 2012. Cafwyd cyfanswm o 15 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Crynhoir y prif bwyntiau isod, ynghyd â'r camau a gymerwyd lle y bo angen i fynd i'r afael â'r rhain ac adborth ar y prif themâu a'r pwyntiau allweddol a godwyd. Rhestrir yr ymatebwyr yn Atodiad A, ac eithrio awdur un ymateb a oedd am i'w fanylion cyswllt gael eu cadw'n gyfrinachol. Ceir copïau o'r holl ymatebion a gafwyd yn Atodiad B.

2.3 Roedd rhai sylwadau y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad, ac er i ni wneud pob ymdrech i gysylltu'r ymatebion hyn â themâu penodol yr ymgynghoriad nid oedd hyn bob amser yn ymarferol. Fodd bynnag, mae hanfod pob sylw o'r fath wedi'i ystyried yn llawn.

2.4 Ceir y ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb a fabwysiadwyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn yr adran Addysg a Sgiliau (ymgynghoriadau sydd wedi dod i ben) ar wefan Llywodraeth Cymru yn: www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau.

2.5 Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad am eu cyfraniad.

3. Sylwadau ar gwestiynau'r ymgynghoriad ynghyd â'n hymateb ac adborth

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'r nod o gyflwyno rhaglen gwella disgyblion/ysgolion i helpu pobl ifanc sydd o dan anfantais addysgol drwy raglen hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth sy'n targedu ymgeiswyr o safon, wedi'u cefnogi gan hyfforddiant penodol gan ddarparwyr HCA?

Trosolwg cyffredinol

3.1.1 Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn. Roedd chwe ymatebydd o blaid cyflwyno'r cynnig ar y cyfan, roedd pedwar yn anghytuno a dywedodd pump arall nad oeddent yn siŵr neu ni wnaethant ateb y cwestiwn yn uniongyrchol. Dywedodd sawl un o'r rheini a oedd yn anghytuno neu nad oeddent yn siŵr eu bod yn cytuno mewn egwyddor â nod cyffredinol cyflwyno rhaglen gwella ysgolion/disgyblion.

3.1.2 Ategodd y rhan fwyaf o'r rheini a oedd naill ai'n anghytuno neu ddim yn siŵr eu barn drwy ddweud nad oedd y ddogfen ymgynghori yn ddigon manwl i arddel barn hyddysg.

Pwyntiau a godwyd

3.1.3 Dywedodd rhai o'r rheini a oedd yn cytuno, neu'n cytuno mewn egwyddor, fod y nod o gyflwyno rhaglen gwella ysgolion i helpu pobl ifanc sydd o dan anfantais addysgol drwy HASC yng Nghymru i'w groesawu yn seiliedig ar y dystiolaeth o lwyddiant rhaglenni tebyg yn Lloegr. Gan ategu'r sylwadau hyn, dywedodd un ymateb fod y cynigion fel y'u hamlinellwyd yn ymddangos yn debyg i'r rhaglen 'Teach First' yn Lloegr ac y gallai elfennau o'r rhaglen honno fod o fudd i Gymru a gwella cyfleoedd i bobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru. Ychwanegodd yr ymateb hwn ei bod yn bwysig sicrhau bod llwybrau eraill i addysgu yn cael eu hystyried yn gyfartal i'r RhHYR o ran statws.

3.1.4 Roedd eraill o'r farn bod y cynigion yn y ddogfen ymgynghori yn ymddangos fel petaent yn tybio y byddai ymgeiswyr o ansawdd uwch na'r rhai a oedd yn dilyn llwybrau eraill ac y byddent yn athrawon mwy effeithiol o ran dysgwyr dan anfantais. Ychwanegodd un ymateb, er yn croesawu'r cynnig a'i nod, fod gwella perfformiad dysgwyr dan anfantais yn gofyn am amrywiaeth o ffactorau eraill ac nid dim ond athrawon da. Yn eu plith roedd arweinwyr effeithiol, dulliau gweithredu ysgol gyfan ar gyfer addysgu a dysgu a rhaglenni ymyrryd effeithiol. Ychwanegodd yr ymateb hwn y dylai'r cynllun diwygiedig, fel un o'i nodau allweddol, gynnwys darparu llwybr amgen i recriwtio ymgeiswyr o ansawdd uchel, ac y dylai'r llwybr newydd hefyd ganolbwyntio ar gynnig rhaglen hyfforddiant cychwynnol athrawon heriol ond cefnogol iddynt.

3.1.5 Cwestiynodd eraill a oedd yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol, neu'n cytuno ag ef mewn egwyddor, resymeg defnyddio darparwr o Loegr ar gyfer rhan o'r hyfforddiant a cheisiwyd esboniad ynghylch pam nad oedd modd i ddarparwyr o

Gymru gyflawni'r rôl hon yng Nghymru. Dywedodd un y dylai darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ("HCA") yng Nghymru gael digon o fewnbwn ar gam cynllunio'r cynigion a fyddai'n arwain at lwybr hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth arloesol oedd yn unigryw i Gymru. Gofynnodd un a allai llwybr hyblyg i HCA y Brifysgol Agored ddarparu'r math o hyfforddiant athrawon yr oedd ei angen.

3.1.6 Roedd pedwar ymateb yn anghytuno â'r cynnig. Dywedodd tri o'r rhain, ac un arall nad oedd yn siŵr, er eu bod yn cytuno y dylai pobl ifanc sy'n wynebu anfantais addysgol gael pob cefnogaeth, na allent weld unrhyw resymeg na thystiolaeth o blaid cyflwyno llwybr ychwanegol ar sail cyflogaeth i ddiwallu'r angen hwn a bod gormodedd o athrawon cymwysedig a phrofiadol yn y system addysg eisoes neu fod darpariaeth HCA yn bodoli'n barod i ddiwallu'r angen hwn. Dadleuodd un ymateb y dylai'r rhaglen gymorth hon i bobl ifanc fod ar gael i athrawon cymwysedig presennol fel strategaeth i osgoi dileu swyddi gorfodol i'r rheini sy'n wynebu'r fath sefyllfa. Roedd yr ymatebion hyn, ynghyd â rhai eraill oedd naill ai'n anghytuno neu ddim yn siŵr, yn ceisio mwy o eglurhad ynghylch goblygiadau cost gweithredu'r RhHYR.

3.1.7 Pwysleisiodd un ymateb, a nododd nad oedd yn siŵr, mai dim ond athrawon cymwysedig ddylai fod yn addysgu mewn ystafelloedd dosbarth. Nododd, petai rhaglen hyfforddi yn cael ei chyflwyno, y dylid rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n ei chael hi'n anodd cael swyddi addysgu drwy lwybrau HCA arferol, a'r rheini â phrofiad sicr ac ymrwymiad clir i aros mewn addysg yn y tymor hwy.

3.1.8 Dywedodd dau ymateb nad oeddent yn cytuno â'r cynnig, mewn egwyddor y gallent gefnogi nod y RhHYR ond bod y garfan darged yn aneglur ac y byddai angen i'r term 'anfantais addysgol' gael ei ddiffinio. Gofynnwyd nifer o gwestiynau am ymgeiswyr o ansawdd uchel, gan gynnwys sut y byddai'r fath unigolion yn cael eu diffinio a'u nodi, gydag un yn gofyn sut y byddai'r gofynion derbyn yn wahanol i rai cwrs TAR. Dywedodd y llall na ddylai'r broses o dderbyn ymgeiswyr fod yn seiliedig ar safonau academiaidd yn unig ond y dylai hefyd ystyried sgiliau rhyngpersonol a meithrin sgiliau proffesiynol a'r gallu i'w rhoi ar waith. Nododd yr ymateb hwn y byddai angen rhagor o wybodaeth am gynnwys unrhyw hyfforddiant ychwanegol er mwyn dynodi manteision gwariant ychwanegol ar raglen o'r fath.

3.1.9 Gofynnodd sawl ymateb faint o hyfforddeion y byddai'r RhHYR yn eu derbyn, a ph'un a fyddai'r niferoedd hyn yn rhan o dargedau derbyn HCA neu'n ychwanegol atynt. Gofynnodd un a fyddai hyfforddeion llwyddiannus yn gallu gwneud cais am unrhyw swydd addysgu, neu a oes rhaid iddynt fynd am swyddi penodol sy'n cyfateb i'w harbenigedd. Gofynnwyd cwestiwn tebyg mewn ymateb arall o dan sylwadau cyffredinol, sef a fyddai hyfforddeion yn dod yn aelodau parhaol o staff ysgol ar ôl iddynt gael SAC neu a fyddai angen iddynt geisio swyddi eraill.

3.1.10 Awgrymodd un ymatebydd y gallai'r diffiniad o fyfyrwyr o ansawdd uchel awgrymu nad oedd ymgeiswyr drwy fathau eraill o HCA yn cael eu hystyried yn rhai o ansawdd uchel. Nododd fod yn rhaid i ymgeiswyr fodloni gofynion mynediad HCA a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a bod yn rhaid i ddarparwyr HCA gadarnhau bod hyfforddeion yn cyrraedd Safonau SAC Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd fod ystadegau'n dangos bod 53% o fyfyrwyr TAR yn meddu ar radd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth ar y cam mynediad.

Sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain

Rhesymeg

3.1.11 O ran y rhesymeg dros gyflwyno RhHYR wedi'i thargedu, edrychodd Llywodraeth Cymru ar y dystiolaeth o Raglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr ("PISA") ddiweddaraf yr OCED, a ddangosodd fod systemau ysgol effeithiol yn gofyn am y cyfuniad cywir o bersonél hyfforddedig a thalentog. Ymhlith y gwledydd PISA llwyddiannus a nodwyd yn yr adroddiad, cyflwynwyd systemau penodol i ddenu'r unigolion mwyaf talentog i'r ystafelloedd dosbarth mwyaf anodd. Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd mewn adroddiadau blynyddol diweddar gan Estyn, gwelwyd hefyd lle mae ysgolion yn llwyddo er gwaethaf amgylchiadau heriol, tynnir sylw at brosesau addysgu da cyson fel un o'r prif ddangosyddion perfformiad.

3.1.12 Gwnaethom hefyd ystyried dystiolaeth o weithrediad ac effaith y cynllun 'Teach First' yn Lloegr. Mae ganddo egwyddorion sylfaenol tebyg i'r RhHYR ac er y byddai dulliau darparu a'r raddfa'n wahanol mae'n rhoi syniad o effaith bosibl cynllun o'r fath. Cafodd 'Teach First' ei raddio'n ardderchog yn dilyn arolygiad Ofsted ym mis Mehefin 2011 a dywedwyd ei fod yn llwyddiannus iawn o ran cyflawni ei ymrwymiad i fynd i'r afael ag anfantais addysgol. Dywedwyd bod y cyfranogwyr o ansawdd rhagorol, yn enwedig eu rhinweddau personol, hunangymhelliant, myfyrdodau beirniadol a'u hymrwymiad i wella dyheadau a chyflawniadau'r myfyrwyr yn eu hysgolion a mynd i'r afael ag anfantais addysgol. Ystyriwyd bod yr hyfforddiant cyn ysgol, a ragwelwyd fel yr elfen hyfforddi ychwanegol o'r RhHYR, yn gyfrwng ansawdd uchel a oedd yn sicrhau bod cyfranogwyr wedi gwneud gwaith paratoi trylwyr iawn ar gyfer addysgu.

3.1.13 Cafodd astudiaeth ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Manceinion o effaith athrawon 'Teach First' yn eu hystafelloedd dosbarth ac ysgolion ei chyhoeddi ym mis Hydref 2010. Ystyriodd effaith athrawon 'Teach First' ar arferion ystafell ddosbarth, arweinyddiaeth a chyflawniadau disgyblion. Yn gyffredinol, gwelodd yr astudiaeth dystiolaeth gydgysylltiedig fod athrawon 'Teach First' yn cael effaith gadarnhaol mewn ysgolion. Ymhlith y dystiolaeth roedd dadansoddiad meintiol yn dangos canlyniadau disgyblion cadarnhaol yn yr ysgolion hyn o gymharu ag ysgolion cyffelyb; data arsylwi ystafelloedd dosbarth yn dangos bod athrawon 'Teach First' yn ymarferwyr ystafell ddosbarth effeithiol; data cyfweiliadau yn cadarnhau bod yr athrawon hyn yn cael eu hystyried yn arweinwyr yn eu hysgolion ac yn ymarferwyr effeithiol erbyn eu hail flwyddyn yn yr ysgol; data arsylwi ystafelloedd dosbarth yn dangos bod unigolion ar y rhaglen yn cael eu graddio yn hanner uchaf y raddfa ar gyfer y ffactorau dan sylw a hynny'n gyson, gan ddynodi lefelau uchel cyffredinol o effeithiolrwydd athrawon gan gynnwys gwell perfformiad; a thystiolaeth o gydberthynas rhwng ysgolion 'Teach First' a chyrhaeddiad uwch ymhlith disgyblion lefel TGAU.

3.1.14 Awgrymodd rhai ymatebion ddulliau gweithredu amgen mewn perthynas â rhaglen newydd o dan y Cynllun HASC yn ymwneud â chael gafael ar athrawon ar gyfer rhaglen wella. Gallai llwybr hyblyg y Brifysgol Agored tuag at HCA ddarparu'r math o athro neu athrawes dan hyfforddiant sy'n ofynnol, ond ni allai sicrhau hynny, a golygai hyn ynghyd â natur fodiwlaid amrywiol ei gyrsiau nad ystyriwyd ei fod yn llwybr addas ar gyfer rhaglen benodol fel yr hyn a ragwelwyd. Awgrymodd un ymateb y dylai'r cwrs cyn cyflogaeth gael ei gynnig fel rhaglen ailhyfforddi i athrawon

sydd mewn perygl o golli eu swyddi. Ni ragwelir y caiff yr hyfforddiant cyn cyflogaeth ei gynnig ar ffurf digwyddiad hyfforddi cyffredinol, ond yn hytrach fel rhaglen ategol fwy penodol i rywun sy'n dilyn y rhaglen HASC benodol hon. Byddai'n cynnig cymorth penodol mewn meysydd fel dadansoddi cryfderau unigol a meysydd i'w datblygu, gan gynnwys gwybodaeth am bwnc, yn ogystal â materion yn ymwneud ag anfantais addysgol, gyda'r nod o alluogi cyfranogwyr HASC i ddechrau addysgu mewn ffordd fwy effeithiol. Rhagwelir y bydd y RhHYR yn rhaglen fechan ac iddi ffocws clir ac na fyddai'n addas nac yn ymarferol fel cynllun i osgoi dileu swyddi gorfodol.

Defnydd posibl o ddarparwyr HCA yn Lloegr

3.1.15 Roedd yn ymddangos bod sawl un o'r ymatebion a oedd yn mynegi pryder ynghylch y mater hwn wedi tybio y byddai hyn yn golygu gweld darparwr HCA o Loegr yn rhedeg y cynllun neu'n cynnal y rhan fwyaf o'r hyfforddiant. Er enghraifft, cyfeiriodd un ymateb at y RhHYR yn cynnwys darparu cryn dipyn o hyfforddiant yn Lloegr, na fyddai'n wir o gwbl.

3.1.16 Yn y ddogfen ymgynghori, dywedwyd bod y Cynllun HASC drafft yn cynnwys yr hyblygrwydd i alluogi darparwyr HCA o Loegr i chwarae rhan yn y RhHYR er mwyn cyflwyno'r cyfnod arfaethedig o hyfforddiant cyn cyflogaeth dwys dan arweiniad prifysgol petai angen gwneud hyn i helpu i gyflawni'r rhaglen. Nid yw'n dweud bod yn rhaid i hyn ddigwydd; mae'n opsiwn sydd ar gael, ped ystyrid bod hyn yn ffordd dda o gynnig cwrs hyfforddiant cychwynnol effeithiol ac effeithlon.

3.1.17 O ran cyfran yr amser hyfforddi, nododd y ddogfen ymgynghori'n glir mai dim ond i'r cyfnod arfaethedig o hyfforddiant cyn cyflogaeth roedd y defnydd posibl o ddarparwr HCA o Loegr yn gymwys. Roedd hefyd yn nodi bod yn rhaid i o leiaf hanner y cyfnod hyfforddi cychwynnol gael ei ddarparu yng Nghymru ac na allai mwy na hanner y cyfnod hwnnw gael ei gynnig gan ddarparwr HCA achrededig o Loegr. Yn olaf, nododd fod yn rhaid i'r holl hyfforddiant ar sail cyflogaeth gael ei gynnig gan ddarparwr HCA achrededig yng Nghymru. O ran yr hyfforddiant cyn cyflogaeth a'r hyfforddiant ar sail cyflogaeth gyda'i gilydd, byddai uchafswm y cyfnod hyfforddi a gynigiwyd gan ddarparwr HCA o Loegr (os o gwbl) yn llai na 7% o'r cyfanswm.

3.1.18 O ran cyfrifoldeb, nododd y ddogfen ymgynghori y byddai'n rhaid i'r broses o lunio a darparu hyfforddiant ac asesu hyfforddeion yn erbyn y Safonau SAC gael ei chyflawni gan ddarparwr HCA achrededig. O ystyried y pwyntiau ynghylch amser hyfforddi, byddai hyn yn golygu bod darparwr HCA achrededig o Gymru yn gyfrifol am o leiaf hanner yr hyfforddiant cyn cyflogaeth a'r holl hyfforddiant ar sail cyflogaeth. Hyd yn oed petai hanner yr hyfforddiant cyn cyflogaeth yn cael ei gynnig gan ddarparwr HCA achrededig o Loegr, byddai'n ofynnol i'r sefydliad cymeradwy oedd yn rhedeg y RhHYR sicrhau bod cynnwys, strwythur a darpariaeth y cwrs hyfforddi cychwynnol ar gyfer hyfforddeion RhHYR yn adlewyrchu Safonau SAC yng Nghymru. Mater i ddarparwr HCA achrededig o Gymru'n unig fyddai asesu hyfforddeion yn erbyn y Safonau SAC.

Anfantais addysgol

3.1.19 Un o flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru o ran effeithiolrwydd ysgolion yw lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Byddai gwaith targedu'r RhHYR yn canolbwyntio ar ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig, yn gymdeithasol ac yn addysgol. Un opsiwn fyddai defnyddio sgorau Ardaloedd Cynnyrch Cymdeithasol Haen Is Mynegai Amddifadedd Plant i nodi'r ysgolion hynny â mwy na 50% o'u disgyblion yn byw yn yr 20% isaf o'r Ardaloedd hyn gyda'r canlyniadau cyrhaeddiad disgyblion gwaethaf yn erbyn y lefel 5+ TGAU graddau A*-C. Byddai gwaith manylach ar hyn yn cael ei wneud gyda'r sefydliad cymeradwy oedd yn cynnal y RhHYR.

Ansawdd/niferoedd hyfforddeion

3.1.20 Byddai'r RhHYR yn llawer mwy penodol na chysiau HCA prif ffrwd ac mae cymariaethau â'r gofynion mynediad presennol neu safonau academiaidd ymgeiswyr HCA yn afrealistig. Mae recriwtio ymgeiswyr o ansawdd uchel i gysiau HCA prif ffrwd presennol yr un mor bwysig wrth gwrs, fel y dangosir gan y cyhoeddiad diweddar yn cyflwyno mwy o gymhellion gwerth i unigolion â'r graddau uchaf sy'n dilyn cysiau HCA TAG mewn pynciau uwchradd â blaenoriaeth ym mlwyddyn academiaidd 2012/13.

3.1.21 Ar gyfer y RhHYR, byddem yn ceisio denu a recriwtio'r canlynol i addysgu yng Nghymru, ymhlith cynulleidfau darged benodol: unigolion rhagorol sy'n dyheu am helpu i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol drwy weithio mewn ysgolion sy'n wynebu amgylchiadau heriol. Byddai disgwyl i hyfforddeion gyflwyno gwelliannau'n gyflym ac yn effeithiol. Byddai lleiafswm y gofynion academiaidd yn debygol o fod yn uwch nag ar gyfer HCA yn gyffredinol, ond byddai amrywiaeth o sgiliau yn debygol o gael eu targedu, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu lefel uchel, arweinyddiaeth gref a'r gallu i weithio'n effeithiol a dyfalbarhau er gwaethaf yr anawsterau.

3.1.22 Yn ôl y ddogfen ymgynghori rhagwelir mai rhaglen fechan fydd y RhHYR. Ar y cam hwn, ni ragwelir y byddai'n fwy na'r Rhaglen Athrawon Graddedig ("RhAG"), sy'n cynnig 72 o leoedd ar gyfer 2012/13, ac a fydd yn llai o faint fwy na thebyg ar y dechrau. Byddai niferoedd yn rhan o'r cytundeb â'r sefydliad cymeradwy oedd yn cynnal y RhHYR ac ni fyddent yn cael eu cynnwys yn y targedau derbyn a bennir ar gyfer cysiau HCA prif ffrwd neu'r RhAG. Byddai gan hyfforddeion a oedd wedi cwblhau eu lleoliadau RhHYR ac wedi cael SAC yr un opsiynau ag unrhyw athro cymwysedig ac mae'r amgylchiadau yn debygol o amrywio yn ôl achosion unigol.

Costau cymharol

3.1.23 Nid yw'r RhHYR yn cael ei chyflwyno fel opsiwn HCA amgen syml. Am y rhesymau a nodwyd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai defnyddio HASC yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflwyno rhaglen gwella ysgolion/disgyblion gyfyngedig wedi'i thargedu i helpu pobl ifanc sy'n wynebu anfantais addysgol. Byddai unrhyw raglen o'r fath yn debygol o gynnwys gofynion a goblygiadau o ran adnoddau y tu hwnt i gynlluniau hyfforddi athrawon syml ac nid yw'n briodol gwneud cymariaethau â llwybrau HCA presennol. Ni chafwyd cytundeb eto o ran y sefydliad cymeradwy fydd yn gweithredu'r RhHYR felly ni phenderfynwyd ar y manylion perthnasol hyd yn hyn.

Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddarparu'r hyfforddiant ar sail cyflogaeth hwn drwy raglen ychwanegol sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cwrs hyfforddiant cychwynnol cyn y cyfnod lle câi'r unigolyn ei gyflogi i addysgu mewn ysgol?

Trosolwg cyffredinol

3.2.1 Roedd wyth ymatebydd yn cytuno, roedd tri yn anghytuno a dywedodd pedwar arall nad oeddent yn siŵr neu ni wnaethant ateb y cwestiwn yn uniongyrchol.

Pwyntiau a godwyd

3.2.2 Dywedodd un ymatebydd oedd yn cytuno â'r cynnig fod darparu hyfforddiant cyn cyflogaeth ychwanegol yn cael ei ystyried yn beth cadarnhaol o ystyried y ffaith bod y RhAG wedi cael ei beirniadu yn y gorffennol oherwydd natur gyfyngedig ei hyfforddiant dan arweiniad prifysgol, a dywedodd un arall fod y cynnig i gyflwyno cyfnod o hyfforddiant cyn cyflogaeth dwys yn briodol iawn gan y byddai hyfforddeion yn meithrin dealltwriaeth glir o ofynion y rhaglen a'r cwricwlwm cyn iddynt gael eu hyfforddiant mewn ysgol. Awgrymodd y ddau ymateb y gallai hyfforddiant cyn cyflogaeth o'r fath gael ei ymgorffori yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer RhAG.

3.2.3 Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn siŵr nad oedd yn cytuno y dylid cyflwyno'r RhHYR, ond gan dybio y byddai'n mynd rhagddi, roedd yn ymddangos mai ei chyflwyno fel rhan o raglen ychwanegol oedd y ffordd fwyaf priodol ymlaen. Roedd hyn ar yr amod na fyddai unrhyw hyfforddiant cyn cyflogaeth yn cael effaith negyddol ar unigolion o ran llwyth gwaith ychwanegol, neu ar eraill oedd eisoes yn cael hyfforddiant athrawon mewn ffyrdd eraill.

3.2.4 Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn cytuno â'r cwestiwn ei fod o blaid cyflwyno llwybr newydd ac amgen i SAC a oedd yn cynnwys cwrs hyfforddi cychwynnol cyn cyflogaeth. Teimlwyd y gallai fod yn ddewis amgen deniadol i ymgeiswyr uchelgeisiol a'r rheini oedd yn newid gyrfa na fyddent efallai yn penderfynu dilyn gyrfa addysgu heb y RhHYR. Fodd bynnag, ni ellid cefnogi cyflwyno'r fath raglen fel ffordd o helpu pobl ifanc sy'n wynebu anfantais addysgol heb gyfiawnhau mai dyma'r opsiwn mwyaf priodol a chosteffeithiol.

3.2.5 Dywedodd un ymatebydd na wnaeth ateb y cwestiwn yn uniongyrchol fod y gofynion statudol presennol ar gyfer achrediad HCA a sicrhau ansawdd HCA yng Nghymru eisoes wedi ymsefydlu a chwestiynodd y defnydd o sefydliad cymeradwy i drefnu'r hyfforddiant ynghyd â'r posibilrwydd o ddefnyddio darparwr HCA o Loegr i gyflwyno'r hyfforddiant cyn cyflogaeth o ystyried na fyddai'r darparwr hwn wedi cael ei achredu gan CCAUC i ddarparu HCA yng Nghymru.

3.2.6 Cododd yr ymatebydd hwn bryderon hefyd ynghylch y broses o ddethol ymgeiswyr; dywedodd y dylai darparwyr fod yn rhan o'r broses ddethol ac nad mater i'r sefydliad cymeradwy yn unig ddylai fod. Atseiniwyd y pwynt hwn mewn ymateb arall a ddywedodd y byddai'n anghyson i lwybrau HASC eraill yng Nghymru gael eu rheoli gan sefydliadau addysg uwch Cymreig ond y gallai'r RhHYR gael ei chyflwyno

gan sefydliad nad oedd yn perthyn i'r sector addysg uwch o bosibl o'r tu allan i Gymru, a gofynnodd sut roedd y rhaglen hon yn wahanol i gwrs hyfforddi athrawon TAR neu'r RhAG. Roedd ymateb arall o blaid cyflwyno'r elfen o gymorth i helpu pobl ifanc sy'n wynebu anfantais addysgol drwy gyrsiau HCA prif ffrwd presennol.

Sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain

Hyfforddiant cyn cyflogaeth ar gyfer y Rhag

3.2.7 Ni ragwelir y caiff yr hyfforddiant cyn cyflogaeth o fewn y RhHYR ei gynnig ar ffurf digwyddiad hyfforddi cyffredinol, ond yn hytrach fel rhaglen ategol fwy penodol i rywun sy'n dilyn y rhaglen HASC benodol hon. Byddai'n cynnig cymorth penodol mewn meysydd fel dadansoddi cryfderau unigol a meysydd i'w datblygu, gan gynnwys gwybodaeth am bwnc, yn ogystal â materion yn ymwneud ag anfantais addysgol, gyda'r nod o alluogi'r cyfranogwyr HASC hyn i ddechrau addysgu mewn ffordd fwy effeithiol.

3.2.8 Mae'r RhAG yn rhaglen hyfforddi fwy cyffredinol ac nid oes iddi natur benodol y RhHYR. Mae system fynediad y RhAG hefyd yn amrywio'n fwy, gyda nifer o hyfforddeion eisoes yn gweithio mewn ysgolion fel athrawon cymwysedig tramor profiadol neu athrawon â chymhwyster addysgu addysg bellach. Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi cyflwyno darpariaeth newydd yn y Cynllun HASC presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i hyfforddeion RhAG gael o leiaf 50 diwrnod o amser hyfforddi fesul blwyddyn academaidd mewn lleoliad ysgol, ar wahân i'r amserlen addysgu, a'r hyn sy'n cyfateb i o leiaf 10 diwrnod o hyfforddiant dan arweiniad prifysgol wedi'i drefnu gan ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth. Byddem am weld sut y caiff hyn ei weithredu cyn ystyried newidiadau pellach.

Cymharu sefydliadau cymeradwy/rhaglenni

3.2.9 Rydym wedi dweud y gall sefydliad cymeradwy drefnu a gweithredu'r RhHYR, ond rydym wedi pwysleisio bod yn rhaid i'r hyfforddiant ar sail cyflogaeth gael ei gyflwyno gan ddarparwr HCA achrededig yng Nghymru. Rhaid i ddarparwr HCA achrededig yng Nghymru hefyd gyflwyno'r cwrs hyfforddiant cyn cyflogaeth cychwynnol; rydym wedi dweud y gall hyn gael ei wneud ar y cyd â ddarparwr HCA achrededig o Loegr, ond am hanner yr elfen honno fan bellaf, a byddai'n rhaid i gynnwys, strwythur a darpariaeth yr hyfforddiant adlewyrchu'r Safonau SAC yng Nghymru. Pe bai ddarparwr HCA achrededig o Loegr yn cael ei ddefnyddio, ni fyddai problem o ran diffyg achrediad gan CCAUC am na fyddai'r ddarparwr o Loegr yn gweithredu'n annibynnol; byddai angen i'r elfen honno gael ei threfnu drwy'r ddarparwr HCA achrededig yng Nghymru. Byddwn yn gwneud y pwynt hwnnw'n gliriach yn y cynllun cyhoeddus.

3.2.10 Byddai angen i unrhyw gorff oedd yn cyflawni rôl y sefydliad cymeradwy reoli'r elfennau amrywiol a amlinellwyd er mwyn sicrhau bod camau cydlynol ac effeithiol yn cael eu cymryd. Ni fyddai o reidrwydd yn wir nad oedd sefydliad cymeradwy yn ddarparwr HCA achrededig, a byddwn yn gwneud y pwynt hwnnw'n gliriach yn y cynllun cyhoeddus. Os nad ddarparwr HCA achrededig oedd y sefydliad cymeradwy, byddai angen i'r broses o lunio a darparu hyfforddiant ac

asesu hyfforddeion yn erbyn cynllun drafft y Safonau SAC gael ei chyflawni gan ddarparwr HCA achrededig o hyd.

3.2.11 Mae'r RhHYR yn dra gwahanol i'r RhAG: mae iddi ffocws gwahanol o gymharu â'r RhAG lle y'i defnyddir fel rhaglen gwella ysgolion/disgyblion benodol i helpu pobl ifanc sy'n wynebu anfantais addysgol, ac elfen benodol yn yr hyfforddiant cyn cyflogaeth nad yw'n cael ei chynnwys yn y RhAG. O ystyried y gwahaniaethau hyn nid oes rheswm pam bod angen i'r modd y darperir y RhHYR gyfateb i'r RhAG. Mae rhaglenni HASC lle y caiff hyfforddeion eu cyflogi mewn ysgolion a lle maent yn dysgu wrth weithio yn amlwg yn dra gwahanol i gwrs hyfforddi athrawon TAG mewn sefydliad addysg uwch, na fyddai, oherwydd ei natur, yn addas ar gyfer y math o ymyrraeth benodol ar raddfa fechan a ragwelir.

Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno â manylion y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol arfaethedig i Raddedigion?

Trosolwg cyffredinol

3.3.1 Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn. Roedd pump yn cytuno, roedd pump yn anghytuno ac roedd pump naill ai ddim yn siŵr neu ni wnaethant ateb y cwestiwn yn uniongyrchol. Nododd y sawl nad oeddent yn siŵr ei bod yn anodd cefnogi'r dull gweithredu am nad oeddent o'r farn bod digon o fanylion yn y ddogfen ymgynghori i wneud penderfyniad hyddysg.

Pwyntiau a godwyd

3.3.2 Nododd un ymatebydd nad oedd yn siŵr y byddai HASC diwygiedig yn galluogi'r RhHYR i redeg os oedd angen, ac roedd am wybod beth fyddai meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer pennu a oedd angen y RhHYR. Roedd yr ymateb hwn hefyd yn ceisio mwy o wybodaeth am y gydberthynas rhwng y sefydliad cymeradwy a'r darparwyr HCA achrededig, ynghyd â'r gweithdrefnau ar gyfer dethol darparwyr HCA, gan ofyn ai un darparwr HCA achrededig fyddai'n cael ei benodi neu sawl un. Gofynnodd ymatebydd arall am y broses o ddethol darparwyr HCA achrededig.

3.3.3 Gofynnodd un ymatebydd nad oedd yn cytuno pam y byddai'r RhHYR arfaethedig yn caniatáu i'r cwrs o hyfforddiant cyn cyflogaeth cychwynnol gael ei gyflwyno gan ddarparwr HCA achrededig o Loegr ar y cyd â darparwr HCA achrededig yng Nghymru, o ystyried pa mor gryf oedd darpariaeth HCA bresennol yng Nghymru. Awgrymodd ymatebydd arall nad oedd yn siŵr gan fod y gofynion SAC yn wahanol yng Nghymru a Lloegr, y byddai rhannu peth o'r broses hyfforddi yn peri rhwystrau o ran sicrhau ansawdd y rhaglen hyfforddi.

3.3.4 Dywedodd ymatebydd arall nad oedd yn cytuno fod elfennau o'r RhHYR a allai gael eu cefnogi ond bod rhai yn peri pryder, a bod hyn hefyd yn codi amheuan ynghylch cynnwys darparwr HCA o Loegr yn y RhHYR, gan awgrymu y byddai'n fwy priodol i ddwy brifysgol yng Nghymru (un yn y gogledd a'r llall yn y de) gyflwyno'r rhaglen. Nid oedd yr ymatebydd hwn o blaid ariannu corff preifat i redeg y RhHYR, o ystyried mai dim ond cyfraniad cyflog y mae'r RhAG bresennol yn ei ddarparu ac mai

dim ond mewn nifer gyfyngedig o bynciau y telir costau hyfforddiant. Ychwanegodd y byddai hyn yn bwysau ychwanegol pan fo'r esgid fach eisoes yn gwasgu ym myd addysg. Mynegodd ymatebydd arall a oedd yn anghytuno bryder nad oedd y math o gorff y rhagwelwyd bod y sefydliad cymeradwy yn ei gynrychioli wedi'i nodi.

3.3.5 Gofynnodd un ymatebydd na wnaeth ateb y cwestiwn yn uniongyrchol a fyddai hyfforddeion RhHYR yn cael y cyfle i ennill cymwysterau megis TAR yn ogystal â chael statws SAC.

3.3.6 Gofynnodd un ymatebydd a nododd nad oedd yn siŵr a fyddai unigolion yn cael cymhelliant i wneud yr hyfforddiant. Gofynnodd hefyd a fyddai'r RhHYR yn cynnwys llefydd cynradd neu dim ond rhai uwchradd. Gofynnodd ymatebydd arall pwy fyddai'n pennu'r targedau mynediad, os nad Llywodraeth Cymru. Awgrymodd, os mai Llywodraeth Cymru oedd yn gwneud hynny, y dylai ddilyn yr un broses ag ar gyfer y RhAG a'r RhAC.

3.3.7 Gofynnodd un ymatebydd nad oedd yn cytuno â'r cynnig am ba hyd y byddai'r hyfforddiant cyn cyflogaeth yn para, gan bwysleisio'r ffaith bod angen i fyfyrwyr feddu ar ddigon o wybodaeth am bynciau a digon o sgiliau i weithio mewn ysgolion.

3.3.8 Cwestiynodd un ymatebydd a ddywedodd nad oedd yn siŵr y broses o sefydlu RhHYR ar wahân ac awgrymodd y gellid ychwanegu hyfforddiant cyn cyflogaeth cyffredinol at gyrsiau HCA RhAG neu TAR. Roedd o'r farn bod ffyrdd mwy effeithlon o gynyddu niferoedd addysgu na chwrs newydd dynodedig. Awgrymodd y gallai'r hyfforddiant cyn cyflogaeth fod yn gyrsiau gwella gwybodaeth am bynciau er mwyn llenwi bylchau o ran gwybodaeth am bynciau ac addysgeg.

3.3.9 Cododd dau ymatebydd, a nododd nad oeddent yn siŵr, bryderon ynghylch pwy fyddai'n dewis yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan a sut y byddent yn cael eu dewis. Gofynnodd yr ymatebwyr hyn hefyd a fyddai disgwyl i hyfforddeion aros mewn swydd am gyfnod penodol o amser ar ôl cael SAC.

3.3.10 Cododd dau ymatebydd a nododd nad oeddent yn siŵr ac un a oedd yn anghytuno bryderon ynghylch meini prawf dethol hyfforddeion, gan dybio y byddai angen meini prawf mynediad ychwanegol ar ymgeiswyr ynghyd â rhinweddau personol penodol uwchlaw'r rheini oedd yn ofynnol ar gyfer y RhAG. Gofynnodd un pwy fyddai'n dewis yr ymgeiswyr ac yn eu paru â'r ysgolion lle y'u lleolid.

3.3.11 Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn cytuno y byddai penodi corff cymeradwy nad oedd yn ddarparwr HCA achrededig yn peri heriau sylweddol o ran sicrhau ansawdd a materion diogelu a bod angen i'r rhain gael eu hystyried. Gofynnodd yr un ymatebydd sut y gallai darparwyr HCA fod yn gyfrifol am hyfforddiant os nad oeddent yn ymwneud â'r broses o ddewis hyfforddeion, gan gwestiynu pwy fyddai'n bennaf cyfrifol am y rhaglen. Roedd ymatebydd arall o farn debyg mai darparwyr HCA achrededig ddylai redeg y RhHYR.

3.3.12 Gofynnodd sawl ymatebydd a fyddai RhHYR Gymraeg neu ddwyieithog ar gael. Mewn ymateb i gwestiwn 2 codwyd pryderon ynghylch galluogi hyfforddeion i gael hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg o ystyried cyfranogiad posibl darparwyr

HCA o Loegr. Ym marn un ymatebydd dylid cyfeirio at y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg yng ngofynion EBR1.2 ac EBR1.5 yn Atodiad A.

3.3.13 Gofynnodd un ymatebydd a fyddai'r RhHYR yn cynnwys gofynion sicrhau ansawdd ychwanegol petai athro dan hyfforddiant yn cael ei roi mewn ysgol nad oedd yn perfformio cystal. Cwestiynodd hefyd sut y byddai effeithiolrwydd yr hyfforddiant a'r cysylltiad â gwella'r ysgol a pherfformiad yr ysgol yn cael eu mesur.

Sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain

Defnyddio'r RhHYR

3.3.14 Mae'r cyfeiriad at y ffaith y bydd y RhHYR yn cael ei chynnal 'os oes angen' yn adlewyrchiad syml o'r hyn a nodir ym mharagraff 1.3 o'r ddogfen ymgynghori nad yw cynnwys rhaglen mewn Cynllun HASC o reidrwydd yn golygu y bydd yn gweithredu drwy'r amser. Nid yw'r RhAC yn gweithredu ar hyn o bryd, er enghraifft. O ran y RhHYR, mae'n amlwg bod yna bobl ifanc sy'n wynebu anfantais addysgol ac mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi y byddai'n hoffi defnyddio hyfforddiant ar sail cyflogaeth fel ffordd benodol o gyflwyno rhaglen gwella ysgolion/disgyblion i'w helpu.

Defnydd posibl o ddarparwyr HCA yn Lloegr

3.3.15 Mae'r rhan fwyaf o'r pwyntiau a godwyd am hyn o dan gwestiwn 3 yn cael eu trafod yn ein hymatebion o dan gwestiwn 1, ym mharagraffau 3.1.15-3.1.18. Ni ddylai'r gofynion gwahanol ar gyfer SAC yng Nghymru a Lloegr fod yn broblem oherwydd byddai'r Cynllun HASC yn ei gwneud yn ofynnol i lunio a darparu hyfforddiant ac asesu hyfforddeion ar gyfer y RhHYR yn erbyn y Safonau SAC ar gyfer Cymru.

Sefydliad cymeradwy

3.3.16 Mae sawl un o'r pwyntiau a godwyd am hyn o dan gwestiwn 3 yn cael eu trafod yn ein hymatebion o dan gwestiwn 2, ym mharagraffau 3.2.9-3.2.11. Trafodir materion ynghylch costau'r RhHYR yn ein hymateb o dan gwestiwn 1, ym mharagraff 3.1.23. Ni wnaed unrhyw dybiaeth ynghylch y math o gorff a fyddai'n sefydliad cymeradwy; y nod fyddai sicrhau'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r RhHYR.

3.3.17 Caiff dyletswyddau'r sefydliad cymeradwy o ran y RhHYR eu nodi ym mharagraffau 51-58 o'r cynllun drafft. Gan dybio nad oedd y sefydliad cymeradwy yn ddarparwr HCA achrededig ei hun, mater i'r sefydliad cymeradwy fyddai gwneud trefniadau gyda darparwr (neu ddarparwyr) HCA achrededig oedd yn barod i weithio gydag ef.

Strwythur y RhHYR

3.3.18 Nid yw rhaglenni HASC yn cynnwys cymwysterau academiaidd felly ni thrafodwyd y mater hwn yn yr ymgynghoriad. Gall Llywodraeth Cymru edrych ar ba opsiynau a allai fodoli yn y maes hwn yng nghyd-destun cytundeb â sefydliad cymeradwy.

3.3.19 Ar hyn o bryd, nid yw'n fwriad cymell unigolion i wneud hyfforddiant o dan y RhHYR. Rhaid i unrhyw un sy'n dilyn rhaglen HASC mewn ysgol a gynhelir gael ei gyflogi fel athro a byddai angen i'r ysgol dalu cyflog i'r sawl dan hyfforddiant ynghyd ag unrhyw gostau eraill fel y'u nodir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol. Mae'n bosibl y gallai'r cytundeb â'r sefydliad cymeradwy gynnwys cymorth, er enghraifft, i gwmpasu llety i hyfforddeion yn ystod yr hyfforddiant cyn cyflogaeth.

3.3.20 Ni wnaed unrhyw benderfyniadau ynghylch y mathau o leoedd ar y RhHYR. Y bwriad yw y byddai Llywodraeth Cymru yn pennu targedau o ran derbyn ymgeiswyr ar gyfer y RhHYR ar gyfer blynyddoedd academiaidd penodedig ac y byddai'r targedau hyn yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol i'r sefydliad cymeradwy. Caiff targedau o ran derbyn ymgeiswyr ar gyfer y RhAG eu dyrannu i ddarparwyr HCA achrededig yng Nghymru am mai hwy sy'n gyfrifol am redeg y rhaglenni hynny. Byddai'r RhHYR yn cael ei rhedeg fel rhaglen annibynnol drwy'r sefydliad cymeradwy, felly ni fyddai'r un broses yn bosibl.

Hyd a chynnwys hyfforddiant cyn cyflogaeth o dan y RhHYR

3.3.21 Byddai cyfnod yr hyfforddiant cyn cyflogaeth o dan y RhHYR yn cael ei nodi yn y cytundeb â'r sefydliad cymeradwy. Ni wnaed unrhyw benderfyniadau ynghylch hyn eto, ond byddem yn disgwyl iddo bara sawl wythnos.

3.3.22 Caiff materion ynghylch p'un a allai fod cyfnod o hyfforddiant cyn cyflogaeth o dan y RhAG, a beth allai gael ei gwmpasu yn y cyfnod o hyfforddiant cyn cyflogaeth o dan y RhHYR, eu trafod yn ein hymateb o dan gwestiwn 2, ym mharagraffau 3.2.7-3.2.8. Fel y nodwyd, byddai'r cyfnod o hyfforddiant cyn cyflogaeth o dan y RhHYR yn benodol i anghenion rhaglen arbennig a byddai'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd wedi'i thargedu i gyflwyno rhaglen gwella ysgolion/disgyblion i helpu pobl ifanc sy'n wynebu anfantais addysgol, felly ni fyddai'n ddarpariaeth gyffredinol oedd yn briodol i gyrsiau HCA prif ffrwd. Nid yw'r RhHYR yn cael ei chyflwyno i gynyddu niferoedd addysgu.

Gweithredu'r RhHYR

3.3.23 Trafodir materion ynghylch meini prawf dethol hyfforddeion yn ein hymateb o dan gwestiwn 1, ym mharagraffau 3.1.20-3.1.22. Ym mharagraff 51 o'r cynllun drafft oedd ynghlwm wrth y ddogfen ymgynghori, nodwyd y bydd y sefydliad cymeradwy yn ystyried ceisiadau am leoedd o dan Gynllun HASC 2012 yn erbyn y gofynion mynediad a nodir yno ac yn penderfynu p'un a yw unigolion yn addas i hyfforddi fel athro drwy'r RhHYR.

3.3.24 Trafodir yr opsiynau o ran dewis ysgolion yn ein hymateb o dan gwestiwn 1, ym mharagraff 3.1.19. Ym mharagraff 55 o'r cynllun drafft oedd ynghlwm wrth y ddogfen ymgynghori, nodwyd y byddai angen i'r sefydliad cymeradwy, ar y cyd â darparwr HCA achrededig, wneud trefniadau ag ysgol(ion) addas i gadarnhau lleoliadau hyfforddeion. Mae angen cadarnhau sut y caiff lleoliadau RhHYR eu sefydlu o hyd. Dim ond yr amserlenni ar gyfer hyfforddiant yn arwain at SAC a gwmpesir gan y cynllun HASC o reidrwydd.

3.3.25 Mae'r Cynllun HASC drafft yn nodi'n glir mai'r sefydliad cymeradwy fyddai'n bennaf cyfrifol am weithredu'r RhHYR ac ystyried ceisiadau am leoedd o dan Gynllun 2012 yn erbyn y gofynion mynediad a phennu a yw unigolion yn addas i hyfforddi fel athrawon drwy'r RhHYR. O ran yr hyfforddi a'r asesu, ei rôl yw trefnu'r ddarpariaeth, ond byddai'r gwaith ei hun yn cael ei wneud gan ddarparwr HCA achrededig a fyddai'n gorfod cyrraedd safonau sicrhau ansawdd ar gyfer y gwaith hwnnw fel y gwneir ar gyfer gwaith HCA arall. Byddai manylion y trefniadau ar gyfer gwneud hyn yn fater rhwng y sefydliad cymeradwy (os nad oedd yn ddarparwr HCA achrededig ei hun) a darparwr (neu ddarparwyr) HCA achrededig oedd yn barod i weithio gydag ef.

3.3.26 O ran unigolyn dan hyfforddiant mewn ysgol nad yw'n perfformio cystal, mae'r Cynllun HASC drafft yn nodi bod yn rhaid i'r sefydliad cymeradwy, mewn trafodaeth â'r darparwr HCA achrededig, wneud trefniadau i unigolion dan hyfforddiant gael yr hyfforddiant angenrheidiol mewn ysgol amgen, os oes angen gwneud hyn er mwyn ei alluogi i gyrraedd y safonau SAC, mewn achosion lle na chaiff hyfforddiant ei gynnig gan ysgol fel y cytunwyd arno mewn cynllun hyfforddi unigol (am ba reswm bynnag) ac nad yw'n bosibl datrys y sefyllfa'n foddhaol; neu fod ysgol yn cau; neu fod ysgol yn newid ei chategori. O dan raglenni HASC, ni chaiff unigolion dan hyfforddiant eu gosod mewn ysgolion sy'n destun mesurau arbennig. Byddwn yn tanlinellu'r pwynt hwnnw yn y Cynllun newydd.

Darpariaeth Gymraeg

3.3.27 O ran sicrhau darpariaeth ddwyieithog neu Gymraeg, byddem yn ei gwneud yn ofynnol i weinyddiaeth y rhaglen, gan gynnwys unrhyw waith hyrwyddo, fodloni gofynion sy'n cyfateb i'n Cynllun Iaith Gymraeg; ac i bob agwedd ar y broses gwneud cais a rhaglen hyfforddi o dan y RhHYR fod ar gael yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg i ymgeiswyr oedd am ddilyn yr opsiwn hwnnw. Byddai hyn yn cynnwys hyfforddiant cyn cyflogaeth gan ddarparwr HCA achrededig, p'un a oedd darparwr o Gymru neu Loegr yn ymwneud â'r gwaith; y broses recriwtio a dethol; a lleoli ymgeiswyr llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fel y bo angen.

3.3.28 Caiff y gofynion mynediad ar gyfer y RhHYR eu nodi yn y Cynllun HASC diwygiedig. Fel y nodwyd uchod, byddai'r gweithdrefnau dethol yn fater i'r sefydliad cymeradwy eu gweinyddu o dan delerau ei gytundeb. Caiff y sefydliad cymeradwy ei hysbysu am ofynion ychwanegol gan gynnwys blaenoriaethau polisi, y pynciau a gwmpesir a nifer yr ymgeiswyr mewn unrhyw flwyddyn benodol ar ddechrau'r flwyddyn mewn datganiad Polisi a Blaenoriaethau, yn debyg i'r hyn a wneir pan gaiff y Canolfannau HCA eu hysbysu am flaenoriaethau polisi'r RhAG.

3.3.29 Mae'r gofynion ar gyfer darparu rhaglenni HASC a weithredir o dan Gynllun 2012 a nodir yn Atodiad A yn seiliedig ar y Gofynion ar gyfer Darparu Cyrsiau HCA ("y Gofynion"), sy'n rhan o'r Meini Prawf statudol ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006, fel y'u diwygiwyd. Roedd ymgynghoriad ar y Gofynion yn cynnwys cynnig y dylid ymgorffori rhai gofynion mynediad oedd yn benodol i'r Gymraeg ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Er i ymatebwyr groesawu'r egwyddor y dylai'r gofynion o ran mynediad oedd yn benodol i'r Gymraeg bennu safonau a oedd yn cyfateb i'r rhai ar gyfer cyrsiau HCA yn gyffredinol, yn ymarferol roedd llawer o'r farn

y byddai problemau ymarferol difrifol. Ystyriwyd y byddai cyfeirio at safon TGAU Cymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn y rhai a oedd wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol ac a oedd wedi dilyn cyrsiau addysg ar ôl hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Lleisiwyd pryderon y byddai gofynion mynediad oedd yn benodol i'r Gymraeg yn creu rhwystr i unigolion cyn iddynt ymuno â'r rhaglen HCA Gymraeg o gymharu â chynnig cymorth Cymraeg wrth gael hyfforddiant. Cafwyd pryderon hefyd ynghylch yr hyn oedd yn gyfystyr â 'chwrs Cymraeg', gyda'r teimlad nad oedd rhai cyrsiau yn cynnwys digon o gynnwys Cymraeg i gyfiawnhau mynnu ar lefel uchel o sgiliau iaith cyn cael ymuno â chwrs.

Cyflwyno adroddiadau

3.3.30 Yn ôl y cynllun drafft a gyhoeddwyd gyda'r ddogfen ymgynghori, byddai angen i'r sefydliad cymeradwy roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru (ar y ffurf a ddynodir gennym o bryd i'w gilydd) sy'n nodi statws a nifer yr unigolion dan hyfforddiant ar y RhHYR; y costau cysylltiedig; canlyniadau'r rhaglenni hyfforddi; ac unrhyw ddata arall sy'n ofynnol. Ein bwriad yw y byddai'r cytundeb â'r sefydliad cymeradwy yn cynnwys darparu ar gyfer adroddiadau ar gynnydd gyda dadansoddiad gwrthrychol o welliannau. Mae angen i'r manylion gael eu cwblhau.

Cwestiwn 4 – A ydych yn cytuno â'r amserlen arfaethedig a'r trefniadau trosiannol a awgrymir?

Trosolwg cyffredinol

3.4.1 Roedd wyth ymatebydd yn cytuno, roedd tri yn anghytuno a dywedodd pedwar arall nad oeddent yn siŵr neu ni wnaethant ateb y cwestiwn yn uniongyrchol.

Pwyntiau a godwyd

3.4.2 Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn cytuno ymhelaethu ar yr amserlen arfaethedig. Aeth un ymatebydd a oedd yn cytuno ymlaen i ddweud bod y cwestiwn yn dibynnu ar ei gefnogaeth i'r RhHYR (yr oedd wedi codi sawl mater yn ei chylch), ond dywedodd petai'r rhaglen yn mynd rhagddi fod yr amserlenni a amlinellwyd yn ymddangos yn dderbyniol (NUT).

3.4.3 Mewn ymateb arall, nid oedd gwrthwynebiad i'r amserlen a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori ond dywedwyd y byddai angen eglurhad pellach ynghylch pryd y byddai niferoedd RhHYR yn cael eu datgelu a phryd y byddai'r broses gwneud cais yn dechrau. Yn yr un ymateb, gofynnwyd am effaith bosibl y RhHYR ar ddyraniadau prif ffrwd a'r rheini ar gyfer y RhAG a ph'un a fyddai ysgolion gwahanol ar gyfer myfyrwyr RhAG a myfyrwyr RhHYR.

3.4.4 Yn yr ymatebion hynny lle nodwyd nad oeddent yn siŵr, dywedwyd ei bod hi'n anodd ateb y cwestiwn hwn am fod diffyg manylion yn y ddogfen ymgynghori ac y byddai ymarferoldeb dyddiad dechrau yn dibynnu ar ffurf y RhHYR.

3.4.5 Roedd dau ymatebydd yn anghytuno â'r modd yr ymdriniwyd â'r amseru am eu bod yn anghytuno â'r cynigion i gyflwyno'r RhHYR yn gyffredinol. Ychwanegodd

un hynny tra dywedodd y llall y dylid mynd i'r afael â'r materion roedd yn eu codi mewn ymateb i gwestiwn 1 cyn cyflwyno rhaglen newydd o'r fath.

Sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain

Trefniadau trosiannol

3.4.6 Mae a wnelo'r trefniadau trosiannol a gynigiwyd â'r RhAG a'r RhAC. Ar gyfer y RhAG a'r RhAC, byddai Cynllun 2011 yn gymwys i bob rhaglen lle roedd yr hyfforddiant yn dechrau cyn 1 Medi 2013, a byddai Cynllun 2012 yn gymwys i raglenni lle roedd yr hyfforddiant yn dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2013.

3.4.7 Rhydd y ddarpariaeth hon barhad angenrheidiol rhwng y Cynllun HASC 2011 presennol a'r cynllun newydd, ond yn ymarferol ni chaiff unrhyw effaith sylweddol. Nododd y ddogfen ymgynghori nad oedd unrhyw newidiadau perthnasol yn cael eu cynnig i'r RhAG a'r RhAC yng Nghynllun 2012 o gymharu â Chynllun 2011, felly yn ymarferol yr unig wahaniaethau fyddai'r manylion yn y datganiad polisiau a gweithdrefnau blynyddol, a all gael ei newid bob blwyddyn beth bynnag.

Amseru'r RhHYR

3.4.8 O ran yr amseru ar gyfer y RhHYR, byddai Cynllun 2012 yn gymwys i raglenni lle roedd yr hyfforddiant yn dechrau ar neu ar ôl 1 Mehefin 2013. Byddai'r cyfnod ychwanegol rhwng mis Mehefin a mis Medi yn darparu ar gyfer y cyfnod hyfforddi cyn cyflogaeth arfaethedig. Dim ond ymwneud â dogfen Cynllun 2012 mae'r mater o ran amseru (felly gallai materion eraill, megis cytundeb â sefydliad cymeradwy er enghraifft, ddigwydd ymlaen llaw) ac mae ond yn nodi'r pwynt y bydd yn dechrau (felly ni fyddai unrhyw leoliadau hyfforddi RhHYR yn dechrau cyn 1 Mehefin 2013, ond nid yw'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw rai ddechrau ar y pwynt hwnnw).

Niferoedd derbyn a dyraniadau

3.4.9 Byddai Llywodraeth Cymru yn dyrannu targedau derbyn yn uniongyrchol i'r sefydliad cymeradwy ynghyd â datganiad polisi a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn academiaidd y mae'r RhHYR yn gweithredu ynddi, ond ni wnaed unrhyw benderfyniadau ynghylch pryd y byddai hyn yn cael ei wneud na phryd y byddai'r broses gwneud cais yn dechrau. Nododd y ddogfen ymgynghori y rhagwelir y bydd y RhHYR yn rhaglen fechan ac iddi ffocws clir, ac nad yw'n debygol o gael effaith fawr ar ddyraniadau HCA mewn mannau eraill.

3.4.10 Mae gan y RhAG/RhAC a'r RhHYR yn unigol derfynau o ran niferoedd unigolion dan hyfforddiant (gan gynnwys unigolion dan hyfforddiant o'r ddwy raglen), ond gan fod y RhHYR yn rhaglen wahanol ac iddi ffocws mwy penodol, nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol a fyddai'n atal ysgol rhag cael unigolion dan hyfforddiant o'r ddwy. Fodd bynnag, ar gyfer y RhAG a'r RhHYR, mae darpariaeth gyffredinol fod yn rhaid gwneud trefniadau ag ysgolion addas i gadarnhau lleoliadau i unigolion dan hyfforddiant a sicrhau bod yr ysgolion yn gallu darparu, ar gyfer hyd

rhaglen y RhAC, ac unrhyw ran ohoni, yr hyn sydd ei angen i alluogi unigolion dan hyfforddiant i ddangos eu bod yn bodloni safonau SAC.

Cwestiwn 5 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Pwyntiau a godwyd

3.5.1 Nodir pwyntiau a godwyd sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad isod. Roedd dau ymatebydd o'r farn na ddylai'r RhHYR gael ei gweithredu heb i fanylion pellach ac asesiad o'r cynnig gael eu cyhoeddi, ac mae adran 5 yn trafod y ffordd ymlaen.

3.5.2 Awgrymodd un ymatebydd, cyn rhoi'r RhHYR ar waith, y dylai Llywodraeth Cymru drafod opsiynau gyda darparwyr HCA, a allai rannu eu gwybodaeth a'u profiad o weithio gyda phobl ifanc ac oedolion dan anfantais mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a thrwy ehangu mynediad a gweithgareddau Ymgynghoriad yn Ehangach.

3.5.3 Roedd un ymatebydd o'r farn os mai llythrennedd, rhifedd a chau'r bwch cyrhaeddiad oedd prif ffocws y RhHYR ac yr ystyrid bod hyfforddiant penodol yn hanfodol i system ysgolion Cymru, yna ddylai'r hyfforddiant hwn fod ar gael o fewn rhaglenni HCA sydd ar gael ar hyn o bryd.

